

Grŵp Cynefin

# CANLLAW I'CH PV SOLAR

## Eich System PV Solar



### Eich System

Mae eich system PV Solar bellach ar waith ac rydych chi'n cynhyrchu eich trydan adnewyddadwy eich hun! Mae paneli Longi405w wedi eu gosod ar y to ac maen nhw wedi eu cysylltu i wrthdröydd (invertor) Solis yn eich atig. Mae'r gwrthdröydd Solis yna wedi'i gysylltu i'ch mesurydd RDL wrth ymyl eich Uned Defnyddiwr (fuseboard).




### Gwrthdröydd Solis

DC (direct current neu gerrynt uniongyrchol) yw'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu gan gelloedd solar. Y trydan a ddefnyddir yn eich tŷ yw AC (alternating current neu gerrynt eiledol). Felly, mae'n rhaid cael gwrthdröydd i drosi'r trydan DC i mewn i drydan AC er mwyn gallu ei ddefnyddio yn eich cartref i redeg offer. Fydd dim angen i chi gyffwrdd y gwrthdröydd. Mae'n rhedeg yn hollol awtomatig.
Os digwydd diffyg o gwbl, sy'n brin, bydd yn dangos ar ap ffôn Solis Cloud.



### Mesurydd RDL ac Arunigydd (neu isolator) Argyfwng

Mae'r ddau wedi eu gosod wrth ymyl eich uned defnyddiwr (fuseboard). Mae'r mesurydd wedi'i gysylltu i'r gwrthdröydd ac mae'n dangos faint o drydan sydd wedi'i gynhyrchu i gyd. Nid yw hwn yn gyfrif dyddiol ond yn gyfanswm o'i osod hyd heddiw.

Defnyddiwch yr arunigydd argyfwng i ddiffodd y system solar mewn argyfwng. Os ydych chi yn poeni bod rhywbeth yn bod a nam ar y system, diffoddwch a gofyn am gyngor gan Grŵp Cynefin.


### MANYLION CYSWLLT

**Am waith trwsio brys ffoniwch Grŵp Cynefin: 0300 111 2122**
**Mwy o wybodaeth ar wefan Grŵp Cynefin www.grwpcynefin.org/fy-nghartref-dwin-denant**


Gallwn ddarparu gwybodaeth mewn amrywiol ddulliau gan gynnwys print, print bras, tâp sain a Braille. Cysylltwch â Grŵp Cynefin i gael cymorth pellach.

Stamp Sêl Bendith TENANT

Retrofit

## Ap ffôn Solis Cloud

Gellir lawrlwytho'r ap hwn a'i ddefnyddio i ddangos llif y pwer. Mae'n dangos faint o ynni solar sy'n cael ei gynhyrchu ar y pryd. Gellir ei ddefnyddio i wneud y mwyaf o'r system a dangos faint o drydan sydd ar gael i'w ddefnyddio.

# CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

**C: Alla i newid fy nghyflenwr ynni?**

**A:** Gallwch. Gallwch newid cyflenwr ar unrhyw adeg.

**C: A oes angen i fy nghyflenwr wybod bod gen i baneli solar?**

**A:** Na, codir tâl arnoch am y trydan rydych chi'n ei ddefnyddio gan eich cyflenwr, mae'r trydan a gyflenwir gan eich paneli solar yn mynd yn uniongyrchol i'ch gwrthdröydd, ei droi'n drydan, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n syth gan offer sy'n rhedeg ar y pryd.

**C: A fydd fy nefnydd solar yn dangos ar fy mesurydd clyfar neu fy mil?**

**A:** Na - mae eich mesurydd clyfar a'ch bil yn adlewyrchu'r ynni rydych chi'n ei ddefnyddio gan eich cyflenwr yn unig.

**C: Pwy sy'n cynnal yr offer sydd wedi'i osod?**

**A:** Grŵp Cynefin sy'n gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw'r paneli ar ôl eu gosod, mae hyn yn cynnwys glanhau'r paneli.

**C: Beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r pŵer a gynhyrchir?**

**A:** I wneud y gorau o'r pŵer a gynhyrchir gan eich PV solar, rydym yn cynghori lledaenu eich defnydd trydan dros oriau golau dydd. Bydd defnyddio un peiriant yn unig ar y tro yn gwneud y mwyaf o'r arbedion o'ch solar, er enghraifft, peidiwch a defnyddio'r peiriant golchi yr un pryd â'r sychwr dillad.

# GWYBODAETH DIOGELWCH

- Peidiwch byth â chyffwrdd â phaneli solar neu gydrannau trydanol y system tra'u bod yn gweithio neu'r pŵer ymlaen.
- Peidiwch â cheisio trwsio neu gynnal a chadw'r paneli solar eich hun. Cysylltwch â Grŵp Cynefin am wasanaeth.
- Peidiwch â rhwystro'r llif aer i'r gwrthdröydd, gan y gall hyn achosi gorboethi ac o bosibl achosi tân.
- Os byddwch yn sylwi ar unrhyw arwyddion o ddifrod neu orboethi, diffoddwch y system a chysylltwch â Grŵp Cynefin.
- Peidiwch â cheisio glanhau'r paneli solar eich hun.
- Peidiwch â cherdded ar y paneli solar oherwydd gall achosi difrod ac effeithio ar eu perfformiad.